



Dai Lloyd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a
Chwaraeon Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Chwefror 2021

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Chwefror, yn gofyn i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am bolisi Llywodraeth Cymru ar reoli COVID Hir er mwyn llywio'r ymchwiliad i effaith y pandemig.

Rwy'n hapus i ymhelaethu ar y diweddariad a nodir yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar 20 Ionawr 2021. <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ffeithiau-hirdymor-covid-19>

Mae haint COVID-19 bellach yn bwnc ymchwil byd-eang, ac wrth i'r pandemig barhau, rydym yn deall mwy am broses y clefyd a'i heffaith tymor hwy ar iechyd cleifion. Er y credid i ddechrau y gallai symptomau bara ychydig wythnosau ac, ar ôl iddynt leihau, y gallai'r unigolyn ddychwelyd i'w ffordd flaenorol o fyw, mae bellach yn dod yn amlwg bod rhai pobl yn cael effeithiau mwy hirdymor o lawer.

Mae Cymru'n cymryd rhan mewn astudiaeth yn y Deyrnas Unedig o'r enw *The Post-Hospitalisation COVID-19 Study* (PHOSP COVID), a ariennir gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd (NIHR) ac UK Research and Innovation MRC UK ac a arweinir gan Ganolfan Ymchwil Biofeddygol NIHR Caerlŷr. Mae'r astudiaeth Iechyd Cyhoeddus Frys hon wedi'i sefydlu i asesu effeithiau hirdymor COVID-19 ar iechyd ac adferiad cleifion mewn 10,000 o gyfranogwyr.

Mae galwad ymchwil ar y cyd ledled y DU gyda chyllid o hyd at £20 miliwn wedi'i lansio gan NIHR ac UK Research and Innovation (UKRI). Mae'r alwad am gynigion ymchwil i effeithiau corfforol a meddyliol tymor hwy COVID-19 mewn unigolion nad ydynt yn yr ysbyty. Disgwylir i brosiectau ddechrau yn gynnar yn y flwyddyn a gellir eu hariannu am hyd at 3 blynedd.

Mae tystiolaeth gynyddol a hanes profiadau pobl yn dangos bod nifer bach, ond sylweddol o bobl sy'n dal COVID-19 yn profi effeithiau am wythnosau a hyd yn oed fisoedd ar ôl mynd yn sâl. Mae rhai amcangyfrifon yn awgrymu y gallai tua 1 o bob 5 o bobl y mae COVID-19 yn effeithio arnynt barhau i brofi gwahanol grwpiau o symptomau fwy na thair wythnos ar ôl

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

yr heintiad; ac y gallai 1 o bob 10 o bobl gael eu heffeithio o hyd am dri mis, neu fwy, ar ôl yr heintiad cychwynnol.

Mae'r Grŵp Cyngor Technegol (TAG) wedi cyhoeddi papur ar 3 Chwefror o'r enw '[COVID Hir – beth ydyn ni'n ei wybod a beth sydd angen i ni ei wybod?](#) Mae hwn yn dwyn ynghyd y dystiolaeth a'r ymchwil ddiweddaraf yn y DU ac yn rhyngwladol i gefnogi polisïau a gweithredu lleol.

Mae'r papur yn nodi cwestiynau ymchwil pwysig pellach i ddeall a monitro effaith COVID Hir ar unigolion a gwasanaethau yng Nghymru, a datblygu llwybrau gofal effeithiol. Bydd angen adolygu'r rhain yn barhaus wrth i anghenion tystiolaeth gael eu diwallu drwy astudiaethau ymchwil yn awr ac yn y dyfodol, ac wrth i feysydd newydd o angen ddod i'r golwg.

Rwyf yn troi yn awr at eich cwestiynau penodol. Fe atebaf gwestiynau 1 i 3 gyda'i gilydd a gwneud yr un peth ar gyfer cwestiynau 5 a 6.

1. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gynnig cymorth i ddioddefwyr COVID hir mewn canolfannau arbenigol, yn debyg i'r hyn a wneir gan GIG Lloegr;

2. Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu canllawiau NICE ar reoli effeithiau tymor hir COVID-19;

3. Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweithwyr iechyd proffesiynol i helpu i asesu, diagnosio a thrin dioddefwyr, gan gynnwys y rhai sy'n profi effeithiau iechyd meddwl COVID-19;

Yng Nghymru, mae ein dull o ymdrin â COVID Hir yn seiliedig ar *Cymru Iachach*. Felly, mae'n seiliedig ar osgoi niwed, hyrwyddo a chefnogi hunanreoli, a gofal di-dor sy'n seiliedig ar werthoedd ac yn cael ei ddarparu gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol neu gan y gwasanaeth cywir, a hynny yng nghartref y claf neu mor agos â phosibl at ei gartref. Mae hefyd yn golygu cytuno ar ofal wedi'i deilwra i anghenion penodol pob unigolyn.

Ar 20 Ionawr 2021, cyhoeddais lansiad ap Adferiad COVID GIG Cymru, sy'n rhoi awgrymiadau a chymhorthion ar gyfer monitro cynnydd. Yn ogystal â'r ap hwn, mae gwefannau byrddau iechyd a gwefan Galw Iechyd Cymru/111 yn cynnig mrywiaeth o adnoddau hunangymorth a gwybodaeth ac yn cyfeirio pobl atynt.

I ategu canllawiau clinigol NICE ar nodi, asesu a rheoli effeithiau hirdymor COVID-19, mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru wedi cydweithio ar Lwybr Cymunedol i Gymru gyfan ar gyfer COVID Hir. Mae hyn yn cydnabod y gall fod angen cyngor mwy arbenigol ar rai pobl ag effeithiau difrifol, fel niwed i organau, gan weithwyr gofal eilaidd proffesiynol.

Mae pob bwrdd iechyd yn defnyddio'r adnoddau hyn i lunio a llywio eu llwybr lleol. Mae hyn yn golygu dod â phractisau meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol aml-broffesiynol at ei gilydd i roi systemau ar waith, gan wneud y defnydd gorau o arbenigedd gwahanol weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ac adnoddau eraill, megis ap Adferiad COVID newydd GIG Cymru, i ddarparu gofal di-dor ar gyfer asesu, ymchwilio, trin a chymorth adsefydlu. Gall gwasanaethau a mynediad i'r rhain gael eu trefnu a'u cyfleu yn unol ag anghenion ac amgylchiadau lleol.

4. Pa gyllid fydd ar gael ar gyfer gwasanaethau COVID hir;

Rydym yn buddsoddi mewn ymchwil i effaith COVID 19 gan gynnwys ei effeithiau tymor hwy. O ran gwasanaethau i gefnogi pobl â COVID Hir, ein disgwyliad ar hyn o bryd yw y gellir diwallu'r rhan fwyaf o anghenion pobl drwy gyfrwng ap Adferiad COVID GIG Cymru a'r gwasanaethau cymunedol presennol, ac y bydd ar rai pobl angen gwasanaethau arbenigol gan ofal eilaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol o £10 miliwn i'r

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn amserol i ofal gwasanaethau cymunedol sy'n cynnig cymorth adsefydlu, gan gynnwys pobl sy'n gwella o COVID-19. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen cynyddol ledled Cymru am fynediad hawdd at gymorth haen 0/1 ar gyfer materion iechyd meddwl lefel isel a brofir gan bobl yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan y pandemig, ac rydym wedi buddsoddi £9.9 miliwn.

Fel rhan o'i gynllun blynyddol ar gyfer 2021-22, bydd angen i bob bwrdd iechyd nodi ei gynlluniau gweithlu a gwasanaeth i gefnogi pobl â COVID Hir wrth i ni barhau i ddysgu mwy.

5. A yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw asesiad o oblygiadau posibl COVID hir ar y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol;

6. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i reoli COVID hir mewn lleoliadau gofal cymdeithasol (er enghraifft, yr effaith ar staff sy'n dychwelyd i'r gwaith, yr effaith ar ofalwyr di-dâl);

Drwy gydol y pandemig, mae swyddogion a Gweinidogion wedi parhau i gadw mewn cysylltiad agos â sefydliadau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr di-dâl, staff, darparwyr a llywodraeth leol er mwyn deall effeithiau COVID, gan gynnwys COVID hir.

Wrth fynd rhagom, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun ar gyfer sefydlogi ac ailgodi, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydweithio'n agos â'r sector gofal cymdeithasol i sicrhau bod profiad pobl sy'n derbyn gofal a chymorth, gofalwyr di-dâl a staff yn ganolog i'n gwaith o gynllunio'r adferiad.

Bydd hyn yn arbennig o bwysig er mwyn cydnabod profiadau'r grwpiau hynny y mae'r pandemig wedi effeithio fwyaf arnynt, yn enwedig anghenion gofal cymdeithasol y rhai sy'n cael eu heffeithio gan COVID hir, ond hefyd y rhai sy'n darparu gofal a chymorth iddynt, boed yn gyflogedig neu'n ddi-dâl.

7. A yw Llywodraeth Cymru wedi comisiynu unrhyw waith ymchwil i COVID hir, gan gynnwys manylion rôl a chylch gwaith Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru;

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi comisiynu unrhyw ymchwil i COVID hir yn uniongyrchol, ond mae Cymru'n cymryd rhan yn astudiaeth y DU o'r enw *The Post-Hospitalisation COVID-19 Study* (PHOSP COVID), a ariennir gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Iechyd (NIHR) a MRC UK Research and Innovation, dan arweiniad Canolfan Ymchwil Biofeddygol NIHR Leicester. Mae'r astudiaeth Iechyd Cyhoeddus Frys hon wedi'i sefydlu i asesu effeithiau hirdymor COVID-19 ar iechyd ac adferiad cleifion mewn 10,000 o gyfranogwyr.

Bydd astudiaethau o alwad ariannu ledled y DU a gaeodd yn ddiweddar yn canolbwyntio ar gleifion nad ydynt yn yr ysbyty ac effeithiau tymor hwy COVID-19 arnynt, a bydd astudiaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol sydd ar y gweill yn mesur ac yn nodweddu cymhlethdodau iechyd corfforol a meddyliol ôl-aciwt COVID-19.

Mae'r pandemig COVID wedi dangos mor ganolog yw ymchwil a thystiolaeth i iechyd a gofal yng Nghymru, a'u pwysigrwydd i wneud penderfyniadau ar bob lefel yn y system iechyd a gofal.

Mae Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru yn fuddsoddiad o £3m am 24 mis a bydd yn darparu rhaglen ymchwil, synthesis dystiolaeth a gwybodaeth sy'n benodol i Gymru i fodloni blaenoriaethau ac anghenion brys sy'n deillio o bandemig y coronafeirws. Bwriedir i'r Ganolfan, dan arweiniad yr Athro Adrian Edwards o Brifysgol Caerdydd ac ar ran Llywodraeth Cymru, fod yn weithredol o 1 Mawrth.

Bydd y Ganolfan yn ymateb yn gyflym i gwestiynau brys y mae angen i Weinidogion, uwchswyddogion, ac arweinwyr y GIG a gofal cymdeithasol gael atebion iddynt, megis effeithiau hirdymor y pandemig, a bydd yn ymchwilio i heriau megis rheoli heintiau a chadw pellter cymdeithasol, canlyniadau unigedd ac effeithiau'r tarfu economaidd ar iechyd. Mae angen tystiolaeth ymchwil i'n helpu i ddeall yr effeithiau hyn a pha fesurau y gellid eu defnyddio i liniaru effeithiau andwyol.

Bydd y Ganolfan yn canolbwyntio ar yr angen am dystiolaeth yng Nghymru, lle mae bwlch clir ar hyn o bryd yn y tirlun gwybodaeth ymchwil, er mwyn gwneud cyfraniad arbennig i iechyd, lles a gofal.

Bydd y Ganolfan yn gweithio'n agos gyda Grŵp Cyngor Technegol COVID-19 i sicrhau ei bod yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf perthnasol a brys ar gyfer polisi, ymarfer a'r cyhoedd.

8. A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw waith sy'n cael ei wneud gan fyrddau iechyd i reoli effeithiau tymor hir COVID-19, a pha rôl y bydd Llywodraeth Cymru yn ei chwarae wrth hyrwyddo dysgu neu rannu arfer gorau rhwng byrddau iechyd.

Yr hydref diwethaf, wrth inni ddechrau dysgu bod rhai pobl yn profi effeithiau hirdymor yn sgil COVID-19, ysgrifennodd Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru, at fyrddau iechyd yn gofyn iddynt ddechrau datblygu a gweithredu llwybrau a phrotocolau lleol ar gyfer asesu ac ymateb i COVID Hir. Gofynnodd Dr Goodall i bob Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd arwain y gwaith o gydlynu'r cynlluniau hyn ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am hynt y gwaith.

Mae gan y Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddorau Iechyd grŵp cymheiriaid sefydledig sy'n hwyluso'r gwaith o rannu dysg am wasanaethau ar gyfer COVID Hir ac sy'n goruchwyllo'r camau gorau a wneir 'unwaith i Gymru'. Mae hyn yn cynnwys adnoddau hyfforddiant ac addysg a 'thudalen lanio' genedlaethol gyda dolenni i ystod eang o adnoddau. Mae fy swyddogion yn cysylltu'n agos â'r grŵp cymheiriaid hwn bob pythefnos a chyda'r grŵp cymheiriaid o Gyfarwyddwyr Meddygol Cysylltiol bob wythnos.

Hyderaf fod y llythyr hwn yn rhoi darlun clir o'r camau sy'n cael eu cymryd ar COVID Hir gan gynnwys ymchwil i lywio adolygiad parhaus o'n dull gweithredu yn y dyfodol ac yn barhaus.

Yn gywir,



Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services